**Jeremy Miles AC/AM**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit**
**Counsel General and Brexit Minister**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref CG/05095/19

Mick Antoniw AC
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCLA@cynulliad.cymru

9 Ebrill 2019

Annywl Mick,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Mawrth 2019 mewn perthynas â Gorchymyn adran 109 posibl, y cyfeiriodd y Prif Weinidog ato yn ei lythyr atoch ar 11 Mawrth 2019.

Mae Llywodraeth Cymru a Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn cydweithio'n agos i adolygu sut y gall swyddogaethau cydredol a grëir gan ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Brexit sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU gael eu diddymu gan y Cynulliad heb gael cydsyniad Gweinidogion y DU. Mae'r ddwy Lywodraeth yn cytuno y dylid edrych ar y cyfyngiadau presennol sy'n galw am gydsyniad o'r fath er mwyn sicrhau bod trefniadau ôl-Brexit yn gweithio mor llyfn â phosibl, gyda'r bwriad o gynnwys newidiadau mewn Gorchymyn arfaethedig yn y Cyfrin Gyngor a wneir o dan adran 109.

Bwriedir i'r Gorchymyn hefyd gywiro nifer bach o ddiffygion sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE yn Atodlen 7A, drwy ddileu rhai cyfeiriadau penodol at yr UE a chyfraith yr UE; a bydd hefyd yn gwneud rhai cywiriadau i Atodlenni 7A a 7B yn deillio o wallau yn Neddf Cymru 2017.

Fel yr ydych yn gwybod, mae'n ofynnol o dan a.109(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fod unrhyw Orchymyn sy'n cael ei wneud o dan yr adran honno yn cael ei osod gerbron y Cynulliad i'w gymeradwyo, yn ogystal ag yn ddau Dŷ Senedd y DU. Nid oes gan Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru amserlen bendant ar hyn o bryd ar gyfer gosod y Gorchymyn, ond byddaf yn rhoi gwybod y diweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw ddatblygiadau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru / PSCGBM@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gwyir,



**Jeremy Miles AC**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister